



Amcan Llesiant 7

Byw'n Dda - Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael

Sut y byddwn yn gwneud hyn? Ein cynllun gweithredu manwl i gyflawni'r amcan hwn

(Mae'r uwcholeuo lliw lemwn yn golygu nad hwn yw prif amcan y Cam neu'r Mesur)

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed
A	Y Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy	
1	Byddwn yn cynyddu nifer y tai fforddiadwy yn y sir drwy ddarparu'r cynllun tai fforddiadwy (7.3.2.24 MF5-44) (Canlyniad 2017/2018 - 235)	2018/19 - 236 2019/20 - 210 2020/21 - 196
2	Byddwn yn darparu tai fforddiadwy ychwanegol fesul 10,000 o aelwydydd. (PAM/036) (Canlyniad 2017/18 - 14.1)	9.5 Bob 10,000 o gartrefi
3	Byddwn yn cynyddu nifer yr eiddo ychwanegol newydd sy'n cael eu rheoli gan ein hasiantaeth gosod tai cymdeithasol fewnol. (7.3.2.25) (Canlyniad 2017/18 - 63 tai)	60 Tai ychwanegol
4	Byddwn yn darparu cynllun comisiynu tai fforddiadwy clir a fydd yn llywio Cynllun Busnes y Cwmni Masnachu Tai Lleol sydd newydd ei sefydlu. MF5-45	Mehefin 2018
5	Byddwn yn cyflwyno rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe i ddatblygu 'Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer' i helpu i greu cartrefi cynaliadwy a fforddiadwy a mynd i'r afael â thlodi tanwydd ymhlith ein trigolion. MF5-46 (Cam gweithredu hefyd yn Amcanion Llesiant 5 a 12)	Mawrth 2021
6	Byddwn yn ymgysylltu â thenantiaid a phartneriaid allweddol i gynnal Safon Tai Sir Gaerfyrddin ar gyfer pob eiddo sy'n berchen i'r Cyngor. MF5 48	Rhagfyr 2018
7	Byddwn yn helpu holl denantiaid y Cyngor wrth i'r newidiadau Diwygio Lles gael eu gweithredu a chyflawni'r cynllun gweithredu Credyd Cynhwysol er mwyn sicrhau'r incwm mwyaf posibl a datblygu cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth newydd. MF5-49 (Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 5)	Mawrth 2021
8	Byddwn yn datblygu Strategaeth Ddigartrefedd newydd i sicrhau bod pobl agored i niwed yn cael y cymorth priodol i gynnwys: - Datblygu dewisiadau tai i bobl sengl - Datblygu cynllun i sicrhau bod pobl ddigartref yn cael mynediad at wasanaethau iechyd - Adolygu ein dull o reoli llety dros dro MF5 50 (Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 5)	Rhagfyr 2018
9	Byddwn yn datblygu camau i sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer ardal Heol yr Orsaf yn Llanelli drwy: - Ymgysylltu â'r gymuned - Creu prif gynllun uchelgeisiol ond cynaliadwy - Datblygu cynllun cyflawni wedi'i gostio MF5 51 a MF5-47	Rhagfyr 2018 Mehefin 2019 Rhagfyr 2019
10	Byddwn yn cynyddu % yr eiddo preifat gwag sy'n cael eu defnyddio unwaith eto (PAM/013) (Canlyniad 2017/18 - 6.90% - 184 o breswylfeydd) Mae'r mesurau hyn yn cynnwys yr holl eiddo oedd yn wag o'r blaen ac nid tai fforddiadwy'n unig.	7.24% 185 o breswylfeydd
11	Byddwn yn cynyddu nifer y cartrefi newydd a grëir o ganlyniad i aildechrau defnyddio eiddo gwag (PAM/014) (Canlyniad 2017/18 - 5 o breswylfeydd ychwanegol) Mae'r mesurau hyn yn cynnwys yr holl eiddo oedd yn wag o'r blaen ac nid tai fforddiadwy'n unig.	6 Preswylfeydd ychwanegol
12	Byddwn yn cynnal nifer gyfartalog y diwrnodau a gymerir i gwblhau atgyweiriadau tai Cyngor. (PAM/037) (Canlyniad 2017/18 - 16.6 o ddiwrnodau)	16.6 o ddiwrnodau
13	Byddwn yn parhau i sicrhau bod yr holl dai Cyngor yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (PAM/038) (Canlyniad 2017/18 - 100%)	100%
14	Byddwn yn cynnal % y rhent sy'n cael ei golli oherwydd bod eiddo'n wag. (PAM/039) (Canlyniad 2017/18 - 2.3%)	2.3%

Mesur Llwyddiant

Nifer y tai fforddiadwy yn y Sir (7.3.2.24)